OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 2156 (Cy.180)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) (Rhif 2) (Diwygio) 2009

Gwnaed - - - -	*1 Awst 2009*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*4 Awst 2009*
Yn dod i rym - -	*31 Awst 2009*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 22, 42(6) a 43(1) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**1**), ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**2**), yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) (Rhif 2) (Diwygio) 2009.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 31 Awst 2009 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

Diwygiadau

2. Diwygir Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) (Rhif 2) 2008(**3**) yn unol â rheoliadau 3 i 12.

3. Yn rheoliad 2, yn y diffiniad o "Cyngor Ymchwil" ("*Research Council*"), yn lle "Cyngor Ymchwil Ffiseg Ronynnol a Seryddiaeth", rhodder "Cyngor Cyfleusterau Gwyddoniaeth a Thechnoleg"(**4**).

(**1**) 1998 p.30; diwygiwyd adran 22 gan Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 (p.21), adran 146 ac Atodlen 11, Deddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003 (p.1), Atodlen 6, Deddf Cyllid 2003 (p.14), adran 147 a Deddf Addysg Uwch 2004 (p.8), adrannau 42 a 43 ac Atodlen 7.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (ac eithrio i'r graddau y maent yn ymwneud â gwneud unrhyw ddarpariaeth a awdurdodir gan is-adran (2)(a), (c), (j) neu (k), (3)(e) neu (f) neu (5) o adran 22) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 a Gorchymyn Deddf Addysg Uwch 2004 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) 2005 (O.S. 2005/1833 (Cy.149)(C.79)) fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Deddf Addysg Uwch 2004 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) (Diwygio) 2006 (O.S. 2006/1660 (Cy.159)(C.56)). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraffau 30(1) a 30(2)(a) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**3**) O.S. 2008/3170 (Cy.283).

(**4**) Cafodd y Cyngor Cyfleusterau Gwyddoniaeth a Thechnoleg ei ffurfio ar lun cyngor ymchwil drwy uno'r Cyngor ar gyfer Labordy Canolog y Cynghorau Ymchwil a'r Cyngor Ymchwil Ffiseg Ronynnol a Seryddiaeth.